# Adroddiad ar Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2022 ar gyfer Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru

## Medi 2022

## Cynnwys

1. Casglu data a'r sampl ... 3
Glanhau data ... 4
2. Canfyddiadau ... 5
2.1 Cwestiynau cyffredinol am eich ysgol ... 5
2.2 Cynnwys myfyrwyr, rhieni a'r gymuned mewn iechyd a lles ... 11
2.3 Addysg iechyd a lles a diwygio'r cwricwlwm ... 17
2.4 Gweithgarwch corfforol a chludiant llesol ... 24
2.5 Bwyta'n iach ... 29
2.6 Tybaco, cyffuriau ac alcohol ... 37
2.7 Iechyd meddwl a lles meddyliol ... 40
2.8 Rhyw a chydberthynas ... 42
2.9 Darpariaeth gwasanaeth iechyd ... 45
2.10 Atodiad 2020: COVID-19 ... 51

# 1. Casglu data a'r sampl

Cafodd Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2022 ei weinyddu gan Ipsos ar ran Prifysgol Caerdydd. Fe'i atebwyd ar-lein gan ysgolion sy'n aelodau o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith) yng Nghymru. Gwnaed y gwaith maes rhwng 24 Ionawr a 4 Mawrth 2022.

Sampl arolwg Holiadur Amgylchedd yr Ysgol (HAY) yn 2022 oedd 211 o ysgolion. Fodd bynnag, roedd gan dair ysgol ddau safle ar wahân, gyda myfyrwyr yn cadw at un safle yn unig. Gofynnwyd i'r ysgolion hyn ateb Holiadur Amgylchedd yr Ysgol ar wahân ar gyfer pob safle ar wahân. Fe wnaeth 174 ysgol o'r 214 o safleoedd ysgolion (gan gynnwys rhai ysgolion annibynnol) gymryd rhan yn arolwg yr HAY (81%). Ni atebodd 40 (23%) o ysgolion yr arolwg; agorodd 28 ohonynt y ddolen i'r arolwg ond ni atebont yr arolwg ac ni agorodd 12 o ysgolion yr holiadur. Roedd y rhain yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru (gweler Tabl 1). Darparwyd y sampl o ysgolion uwchradd gan Brifysgol Caerdydd**.**

**Tabl 1. Crynodeb o aelodau'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn ôl Awdurdod Lleol a llenwi Holiadur Amgylchedd yr Ysgol**

| Awdurdod Lleol | Aelodau'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (Ysgolion uwchradd a 'phob oed') | |
|---|---|---|
| | Wedi llenwi'r holiadur yn llawn | Heb lenwi'r holiadur |
| Abertawe / Swansea | 13 | 1 |
| Blaenau Gwent | 3 | 1 |
| Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan | 8 | 0 |
| Caerdydd / Cardiff | 10* | 9 |
| Caerffili / Caerphilly | 10 | 2 |
| Casnewydd / Newport | 8 | 1 |
| Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot | 9^ | 0 |
| Ceredigion | 5 | 2 |
| Conwy | 7 | 0 |
| Gwynedd | 13 | 1 |
| Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil | 3 | 1 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr / Bridgend | 8* | 2 |
| Powys | 11^^ | 2 |
| Rhondda Cynon Taf | 12 | 4 |
| Sir Ddinbych / Denbighshire | 6 | 3 |
| Sir Fynwy / Monmouthshire | 5* | 1 |
| Sir Gâr / Carmarthenshire | 11* | 3* |
| Sir Penfro / Pembrokeshire | 7 | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Sir y Fflint / Flintshire | 9 | 2 |
| Torfaen | 5 | 1 |
| Wrecsam / Wrexham | 7 | 2 |
| Ynys Môn / Isle of Anglesey | 4 | 1 |
| **Cyfanswm** | **174** | **40** |

*mae'n cynnwys un ysgol sy'n codi ffioedd, ^mae'n cynnwys un ysgol ar ddau safle, cymerodd y ddau safle ran yn yr arolwg (yn llawn), ^^mae'n cynnwys dwy ysgol ar ddau safle: llenwodd dau safle un o'r ysgolion hyn yr arolwg (yn llawn), a chymerodd un safle'r ysgol arall ran (gan lenwi rhan o'r arolwg)

Yn y don hon o ymatebion i'r astudiaeth, ni chadwyd ymatebion gan ysgolion na lenwodd yr arolwg yn llawn. Mae'r bonion ar gyfer cwestiynau â siart yn cael eu rhoi o dan bob siart. Lle nad oes siart i gwestiwn, mae'r bonion yn cael eu rhoi mewn tabl yn dilyn y crynodeb o'r canfyddiadau ym mhob adran. Mae safleoedd ysgol yn cael eu cyfrif ar wahân yn y bonion. Yn achos siartiau sy'n dangos Blynyddoedd 12 a 13, cafodd pob ysgol heb chweched dosbarth eu hepgor o'r bonion perthnasol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn. Nid oedd chweched dosbarth gan 75 o'r safleoedd ysgol a gymerodd ran.

Caiff canrannau yn y testun ac yn y siartiau eu talgrynnu i'r cyfanrif agosaf. Os nad yw canrannau cyfunol yn y testun neu'r siartiau'n cyfateb yn union i gyfanswm eu ffigurau unigol, gall hyn fod o ganlyniad i dalgrynnu. Mewn rhai siartiau, efallai na fydd ffigurau canran isel yn cael eu labelu er eglurder.

Mae'r ysgolion a gynhelir yn y sampl yn cynrychioli pob ysgol yng Nghymru o ran maint a lefel y myfyrwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, gyda gwahaniaethau bach iawn rhwng yr ysgolion a lenwodd yr holiadur a'r ysgolion na wnaeth ei lenwi (gweler Tabl 2).

## Glanhau data

Roedd angen glanhau rhywfaint o ddata lle nad oedd ysgolion wedi darparu data dileu neu rhoddwyd atebion nad ystyriwyd eu bod yn gredadwy. Mewn achosion o'r fath, cafodd y data eu hailgodio'n ddata "ar goll".

**Tabl 2 Hawl gymedrig i brydau ysgol am ddim a maint cymedrig yr ysgol (Data CYBLD 2022) mewn ysgolion a gynhelir a lenwodd Holiadur Amgylchedd yr Ysgol a'r ysgolion na wnaeth ei lenwi**

| | Wedi cymryd rhan yn yr arolwg (n = 174) | Heb gymryd rhan (n = 40) |
|---|---|---|
| Hawl i brydau ysgol am ddim (%) | 20.27% | 23.95% |
| Nifer y myfyrwyr ar y gofrestr | 807 | 721 |

Sylwch: mae'r ysgol yr oedd un yn unig o'i safleoedd wedi llenwi'r holiadur (gweler Tabl 1) wedi'i chynnwys yn y tabl hwn fel ysgol a gymerodd ran yn yr arolwg.

# 2. Canfyddiadau

## 2.1 Cwestiynau cyffredinol am eich ysgol

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- **Blaenoriaeth yr uwch dîm rheoli** a ddewiswyd amlaf oedd iechyd meddwl ac emosiynol myfyrwyr (94%). Roedd iechyd a lles staff (65%) a chyrhaeddiad addysgol myfyrwyr (65%) yn flaenoriaethau a ddewiswyd yn aml hefyd.

- Mewn pedair o bob pum ysgol (81%) ag **un arweinydd strategol** ar gyfer iechyd a lles, uwch reolwr oedd yr arweinydd, h.y. y pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol (gweler Ffigur 2). Ym mwy na hanner yr ysgolion a holwyd, pennaeth cynorthwyol oedd yr arweinydd ar gyfer iechyd a lles.

- O'r ysgolion a gymerodd ran yn y **cynllun ysgolion iach lleol**, roedd y mwyafrif (76%) ohonynt yn cael cyngor neu arweiniad gan y cynllun ac roedd tri o bob deg (30%) ohonynt wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cam (gweler Ffigur 3). Fodd bynnag, roedd llai nag un o bob deg (8%) ohonynt wedi cael Ymweliad Asesu Cam o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.

- Roedd mwyafrif (73%) o ysgolion o'r farn bod eu **haelodaeth o'r cynllun ysgolion iach lleol** yn bwysig (gweler Ffigur 4).

- Dywedodd pob ysgol eu bod yn defnyddio o leiaf un **ffynhonnell ddata iechyd a lles i ddiweddaru eu polisïau a'u harferion ynghylch creu ysgol iach.** Y ddwy ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd, ac a enwyd amlaf, oedd arolygon yr ysgol ei hun o fyfyrwyr (87%) a'r adroddiad ar Iechyd a Lles Myfyrwyr (92%) (gweler Ffigur 5).


- **Defnyddiwyd data iechyd a lles gan** grwpiau amrywiol yn yr ysgol, yn bennaf gan y timau gofal bugeiliol a lles (95%) a'r uwch dîm rheoli (98%). Roedd chwech o bob deg ysgol (62%) yn rhannu data gyda'u cydlynydd ysgol iach, llywodraethwyr ysgol (59%), neu'r cyngor ysgol neu grwpiau eraill llais y myfyriwr (58%) (gweler Ffigur 6).

- Roedd dros naw o bob deg ysgol (95%) **yn defnyddio data** i amlygu angen a gosod blaenoriaethau iechyd a lles, ac roedd dros wyth o bob deg (86%) ohonynt yn defnyddio data i gefnogi gwelliant yr ysgol (gweler Ffigur 7).

- Roedd defnyddio **arferion adferol yn ymagwedd yr ysgol at ddisgyblu myfyrwyr** yn gyffredin (gweler Ffigur 8). Roedd naw o bob deg ysgol (92%) yn defnyddio cyfryngu gan gyfoedion fel ymagwedd at ddisgyblu myfyrwyr.

| **Cwestiwn (heb siart)** | **Bôn (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)** |
|---|---|
| C2 Oes gan eich ysgol un arweinydd strategol ar gyfer iechyd a lles myfyrwyr? | Pob ysgol a ymatebodd (174) |
| C3 Oes gan eich ysgol un arweinydd neu nifer o arweinwyr ar gyfer y canlynol? | Pob ysgol a ymatebodd (174) |
| C4 A yw eich ysgol yn aelod o'i chynllun ysgolion iach lleol fel rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru? | Pob ysgol a ymatebodd (149) |
| C6 A yw'ch ysgol yn gweithio tuag at Wobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru ar hyn o bryd? | Pob ysgol sy'n aelod o'u cynllun ysgolion iach lleol (117) |
| C7 Pa mor bwysig yw eich aelodaeth o'ch Cynllun Ysgolion Iach lleol i waith iechyd a lles eich ysgol? | Pob ysgol sy'n aelod o'r cynllun ysgolion iach lleol, ac eithrio'r ysgolion a ddewisodd 'Ddim yn gwybod' (131) |
| C8 A oes gan eich ysgol gynllun gweithredu ysgrifenedig ar iechyd a lles yn yr ysgol neu dargedau iechyd a lles yn yr ysgol? | Pob ysgol a ymatebodd (166) |
| C9 A yw eich cynllun gweithredu neu dargedau yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu presennol yr Ysgol? | Pob ysgol sydd â chynllun gweithredu/targedau ysgrifenedig ar iechyd a lles yn yr ysgol (134) |
| C10 A yw'r Uwch Dîm Rheoli / Uwch Dîm Arwain yn gwneud asesiad ffurfiol o'r cynnydd o'i gymharu â'r cynllun gweithredu neu'r targedau? | Pob ysgol sydd â chynllun gweithredu/targedau ysgrifenedig ar iechyd a lles yn yr ysgol (133) |
| C14 A yw eich ysgol yn defnyddio dull ynysu i reoli ymddygiad disgyblion? | Pob ysgol a ymatebodd (174) |
| C16 Pa arferion adferol eraill ydych chi'n eu defnyddio? | Pob ysgol a ymatebodd a ddefnyddiodd arferion adferol eraill (61) |


**Ffig. 1 Blaenoriaethau'r uwch dîm rheoli**




**C1 Ar ba rai o'r meysydd canlynol y canolbwyntiodd yr uwch dîm rheoli eu hymdrechion er mwyn gwneud gwelliannau?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (171). Gellid dewis uchafswm o bedwar opsiwn.


**Ffig. 2 Rôl broffesiynol arweinwyr iechyd a lles ysgolion**




**C2A. Beth yw rôl broffesiynol yr arweinydd iechyd a lles myfyrwyr?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sydd ag un arweinydd strategol ar gyfer iechyd a lles myfyrwyr, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (144).


**Ffig. 3 Gweithgareddau'r Cynllun Ysgolion Iach sydd wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf**




**C5 Pa rai o weithgareddau canlynol y Cynllun Ysgolion Iach sydd wedi digwydd yn ystod y ddwy flwyddyn ysgol ddiwethaf?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n aelod o'u cynllun ysgolion iach lleol fel rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (134).


**Ffig. 4 Pwysigrwydd aelodaeth o'r Cynllun Ysgolion Iach i waith iechyd a lles**




**C7 Pa mor bwysig yw eich aelodaeth o'ch Cynllun Ysgolion Iach lleol i waith iechyd a lles eich ysgol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n aelod o Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (131).


**Ffig. 5 Ffynonellau data a ddefnyddir i ddiweddaru polisïau ac arferion yr ysgol ynghylch iechyd**




**C11 Pa rai o'r ffynonellau data iechyd a lles canlynol y mae eich ysgol yn eu defnyddio i ddiweddaru ei pholisïau a'i harferion ar greu ysgol iach?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (174).


**Ffig. 6 Defnyddwyr data iechyd a lles**




**C12 Pwy sy'n defnyddio'r data iechyd a lles?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n defnyddio data i ddiweddaru polisïau ac arferion ar greu ysgol iach, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (174).


**Ffig. 7 Defnydd ysgolion o ddata i greu ysgol iach**




**C13 Sut rydych chi'n defnyddio'r data iechyd a lles?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n defnyddio data i ddiweddaru polisïau ac arferion ar greu ysgol iach, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (174).

**Ffig. 8 Defnyddio arferion adferol yn ymagwedd yr ysgol at ddisgyblu myfyrwyr**




**C15 Pa mor aml y mae eich ysgol yn defnyddio'r arferion adferol canlynol yn eich ymagwedd at ddisgyblaeth myfyrwyr?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod': Amser cylch (172), Cynhadledd adferol (170), Cyfryngu rhwng cyfoedion (171), Arferion adferol eraill (159)


## 2.2 Cynnwys myfyrwyr, rhieni a'r gymuned mewn iechyd a lles

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- O'r ysgolion hynny a wnaeth **gynnwys myfyrwyr mewn datblygu polisi iechyd a lles**, roedd 49% ohonynt yn gwneud 'bob amser' neu 'gan amlaf' drwy ymgynghoriadau â'r cyngor ysgol, 34% ohonynt drwy ymgynghoriadau â grwpiau eraill llais y myfyriwr, a 33% ohonynt drwy ymgynghoriadau ehangach â myfyrwyr (gweler Ffigur 9; sylwch fod ffigurau'r canrannau wedi'u talgrynnu felly nid yw'r canrannau cyfunol o reidrwydd yn cyfateb i gyfanswm canrannau unigol).
- **Roedd myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn fwyaf cyffredin mewn datblygu polisi yn ystod cam** rhoi sylwadau ar bolisi drafft (65%) a datblygu polisi (64%) (gweler Ffigur 10). Dywedodd hanner o ysgolion (52%) fod myfyrwyr yn cael eu cynnwys mewn cynnig polisïau newydd (gweler Ffigur 10).
- **Roedd grwpiau llais y myfyriwr yn gweithio'n fwyaf cyffredin ar** bynciau lles meddyliol (83% o ysgolion). Roedd bwlio (73%), bwyd a maeth (62%) a gweithgarwch corfforol (53%) hefyd yn bynciau a oedd yn cael eu trafod yn gyffredin (gweler Ffigur 11).
- Nid oedd y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnwys rhieni mewn penderfyniadau ar wella iechyd a lles. O'r ysgolion a oedd yn **cynnwys rhieni mewn penderfyniadau ar wella iechyd a lles**, roedd 83% ohonynt yn gwneud hynny trwy riant-lywodraethwyr, 79% ohonynt trwy arolygon a 63% ohonynt trwy nosweithiau gwybodaeth (gweler Ffigur 12).
- Roedd dros bedair o bob deg ysgol (47%) yn anfodlon ar y lefel bresennol o ymglymiad gan rieni o gymharu â dim ond 15% a oedd yn fodlon (gweler Ffigur 13).
- Roedd bron pob ysgol (88%) **a oedd yn darparu eu cyfleusterau** i grwpiau yn y gymuned leol, yn codi ar rai grwpiau neu ar bob grŵp am eu defnyddio (gweler Ffigur 14).
- **Roedd pob ysgol yn gweithio gydag o leiaf un partner lleol neu genedlaethol i wella iechyd a lles myfyrwyr.** Partneriaethau gyda'r heddlu/Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (98%), gweithwyr ieuenctid (86%), gweithwyr proffesiynol iechyd (83%) a swyddogion datblygu chwaraeon (80%) oedd y mwyaf cyffredin (gweler Ffigur 15).

| **Cwestiwn (heb siart)** | **Bôn (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)** |
|---|---|
| C19 Sawl gwaith y flwyddyn y mae eich Cyngor Ysgol neu gorff tebyg dan arweiniad myfyrwyr yn cyfarfod? | Pob ysgol a ymatebodd (172) |
| C21 Ym mha feysydd y mae rhieni'n cyfrannu at benderfyniadau ynghylch gwella iechyd a lles yn eich ysgol? | Pob ysgol a ymatebodd (149) |
| C24 Pa rai o'r canlynol y mae eich ysgol wedi'u gwneud i ategu gwybodaeth a dealltwriaeth staff ynghylch Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)? | Pob ysgol a ymatebodd (166) |
| C25 I ba raddau y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) wedi llywio ymagwedd eich ysgol at y canlynol? | Pob ysgol a ymatebodd (166) |
| C26 Pa gyfleusterau yn eich ysgol sydd ar gael i grwpiau yn y gymuned leol eu defnyddio, a phryd? | Pob ysgol a ymatebodd sydd â chyfleuster:<br>Chwaraeon awyr agor (172)<br>Chwaraeon dan do (171)<br>Cyfleusterau bwyta (164)<br>Cyfleusterau eraill (153) |
| C27A Pam ydych chi'n codi tâl ar grwpiau cymunedol i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol? | Pob ysgol sy'n codi tâl ar grwpiau cymunedol lleol i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol (124) |


**Ffig. 9 Dulliau a ddefnyddiwyd i gynnwys myfyrwyr mewn datblygu polisi iechyd a lles**




**C17 Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r dulliau canlynol i gynnwys myfyrwyr mewn <u>datblygu polisi</u>?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n defnyddio o leiaf un dull i gynnwys myfyrwyr mewn datblygu polisi iechyd a lles, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Ymgynghoriadau â'r cyngor ysgol (173), Ymgynghoriadau â grwpiau eraill llais y myfyriwr (170), Ymgynghori'n ehangach â myfyrwyr (172), Blychau awgrymiadau (170), Dulliau eraill (98).


**Ffig. 10 Cam cynnwys y myfyrwyr mewn datblygu polisi iechyd a lles**




**C18 Ym mha gam y mae eich myfyrwyr yn cael eu cynnwys fel arfer?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n cynnwys myfyrwyr mewn datblygu polisi iechyd a lles, ac eithrio 'ddim yn gwybod' ac 'nid ydym yn cynnwys myfyrwyr mewn datblygu polisi' (159).


**Ffig. 11 Meysydd iechyd a lles y mae grwpiau llais y myfyriwr wedi gweithio arnynt yn y ddwy flynedd ddiwethaf**




**C20 Pa feysydd iechyd a lles y mae eich grwpiau llais y myfyriwr wedi gweithio arnynt yn y ddwy flynedd ddiwethaf?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (169).


**Ffig. 12 Ffyrdd y mae ysgolion yn cynnwys rhieni mewn penderfyniadau ar wella iechyd a lles**




**C22 Ym mha ffyrdd y mae rhieni'n cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ar wella iechyd a lles?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n cynnwys rhieni mewn penderfyniadau ar wella iechyd a lles, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (75).


**Ffig. 13 Boddhad â'r lefel bresennol o ymwneud gan rieni mewn gwella iechyd a lles**




**C23 Pa mor fodlon ydych chi â'r lefel bresennol o ymwneud gan rieni mewn gwella iechyd a lles yn eich ysgol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (165).


**Ffig. 14 Cyfran yr ysgolion sy'n codi tâl ar grwpiau cymunedol i ddefnyddio'u cyfleusterau**




**C27 A godir tâl ar grwpiau cymunedol i ddefnyddio cyfleusterau eich ysgol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sydd â chyfleusterau sy'n cael eu defnyddio gan grwpiau cymunedol lleol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (141).

## Ffig. 15 Partneriaethau i wella iechyd a lles myfyrwyr




**C28 A oes gan eich ysgol bartneriaethau* ag unrhyw rai o'r unigolion neu'r grwpiau canlynol i helpu gwella iechyd a lles myfyrwyr?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (174).

*Ystyr partneriaethau yw unrhyw berthynas ffurfiol neu anffurfiol sy'n bodoli am gyfnod neu'n barhaus ac sydd, yn achos awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn mynd y tu hwnt i ofynion statudol.


## 2.3 Addysg iechyd a lles a diwygio'r cwricwlwm

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Roedd hanner (50%) myfyrwyr Blwyddyn 7 yn cael **ABCh trwy wersi wythnosol yn yr amserlen yn unig**. Roedd y gyfran hon yn gostwng i draean (33%) o fyfyrwyr Blwyddyn 11 (gweler Ffigur 16).
- **Roedd ABCh yn cael ei gydlynu gan staff mewn amrywiaeth fawr o rolau.** Roedd athro ABCh arbenigol yn cydlynu ABCh gan bron i bedair o bob deg ysgol (38%). Roedd dros draean o ysgolion (37%) ag aelod o uwch dîm rheoli'r ysgol yn y rôl hon, wedi'i rhannu'n bennaf rhwng penaethiaid cynorthwyol (27%) a dirprwy benaethiaid (8%) (gweler Ffigur 17).
- Mewn ychydig dros draean o ysgolion a holwyd (36% o ysgolion), nid oedd gan yr un grŵp y **prif gyfrifoldeb am addysgu ABCh**, neu roedd y baich ar unrhyw athro ystafell ddosbarth. Mewn tair o bob deg ysgol (28%), athrawon dosbarth oedd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn a dim ond mewn 14% o ysgolion yr oedd athro ABCh neu addysg iechyd arbenigol â'r prif gyfrifoldeb am addysgu ABCh (gweler Ffigur 18).
- **Nid oedd** bron i hanner yr ysgolion (49%) **yn darparu hyfforddiant ffurfiol i athrawon ABCh nad ydynt yn arbenigwyr**. Roedd hyfforddiant o'r fath yn orfodol mewn un o bob pum ysgol (22%) ac yn ddewisol mewn un o bob pump arall (24%) (gweler Ffigur 19).
- Roedd cyfran yr ysgolion a oedd yn **darparu dros awr o Addysg Gorfforol yr wythnos** yn 74-81% ym Mlynyddoedd 7 i 9, o gymharu ag ychydig dros 20% ym Mlynyddoedd 10 ac 11 (23% a 22% yn y drefn honno). Roedd dros 90% o ysgolion yn darparu mwy na 45 munud o Addysg Gorfforol yr wythnos ar gyfer Blynyddoedd 7 i 11 (gweler Ffigur 20).
- Mewn pedair o bob deg  ysgol (41**%**), aelod o'r uwch dîm rheoli oedd yn **gyfrifol am gydlynu gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**, gyda 30% o ysgolion yn neilltuo'r cyfrifoldeb i bennaeth cynorthwyol (gweler Ffigur 21).
- Roedd hanner yr ysgolion (56%) yn defnyddio asiantaethau allanol i helpu **cyfrannu tuag at gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.** Hefyd, roedd athrawon gwyddoniaeth (48%), nyrsys ysgol (48%), a thiwtoriaid blwyddyn (47%) hefyd yn cyfrannu at addysgu ACRh mewn bron i hanner yr holl ysgolion a holwyd (Ffigur 22).
- Roedd dros bedair o bob pum ysgol (85%) yn bwriadu addysgu iechyd a lles ar draws y cwricwlwm, fel rhan o'u **camau i gyflwyno addysg iechyd a lles o fewn y cwricwlwm newydd** (gweler Ffigur 23)**.** Dim ond 5% o ysgolion a oedd yn gwneud dim byd neu'n aros am arweiniad.

| Cwestiwn (heb siart) | Bôn (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb) |
|---|---|
| C36 Ar gyfer pob grŵp blwyddyn, nodwch a ydych chi'n addysgu'r canlynol | Pob ysgol a ymatebodd: Blwyddyn 7 (155), Blwyddyn 8 (155), Blwyddyn 9 (157), Blwyddyn 10 (148), Blwyddyn 11 (146) |
| C39 Beth fydd canlyniadau (cadarnhaol a negyddol) diwygio'r cwricwlwm i: Ddysgwyr, Ysgolion, Cymdeithas | Pob ysgol a ymatebodd: 1) Dysgwyr (51) 2) Ysgolion (56) 3) Cymdeithas (70) |
| C40 Beth yw heriau posibl diwygio'r cwricwlwm yn eich ysgol? | Pob ysgol a ymatebodd (40) |
| C41 Sut (os o gwbl) y mae eich ysgol wedi ystyried ffyrdd y gall y diwygiadau gael eu defnyddio i leihau anghydraddoldebau iechyd a lles? | Pob ysgol a ymatebodd (80) |


### Ffig. 16 Cyflwyno ABCh yn y cwricwlwm ffurfiol




**C29 Sut rydych chi'n cyflwyno ABCh yn eich ysgol (naill ai fel gwersi ABCh neu o fewn Bagloriaeth Cymru)?**


Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (mae'r bonion ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 hefyd yn eithrio ysgolion heb chweched dosbarth) Blwyddyn 7 (174), Blwyddyn 8 (173), Blwyddyn 9 (173), Blwyddyn 10 (170), Blwyddyn 11 (166), Blwyddyn 12 (101), Blwyddyn 13 (102)

**Ffig. 17 Rôl yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb am gydlynu'r ddarpariaeth ABCh**





**C30 Pwy sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ABCh yn yr ysgol?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (173).

**Ffig. 18 Athrawon sydd â'r prif gyfrifoldeb am addysgu ABCh**




**C31 Pwy sydd â'r prif gyfrifoldeb am addysgu ABCh?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (174).


**Ffig. 19 Darparu hyfforddiant ffurfiol i athrawon ABCh nad ydynt yn arbenigwyr**




**C32 Os yw athrawon addysg iechyd / ABCh anarbenigol yn addysgu ABCh, a yw hyfforddiant ffurfiol yn cael ei ddarparu i'w cynorthwyo i gyflwyno'r cwricwlwm ABCh?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion nad ydynt yn berthnasol (163).


**Ffig. 20 Amser wedi'i neilltuo i Addysg Gorfforol yn y cwricwlwm ffurfiol (wythnosol)**




**C33 Ar gyfer pob grŵp blwyddyn, faint o Addysg Gorfforol sy'n cael ei hamserlennu bob wythnos yn y cwricwlwm ffurfiol?**


Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Blwyddyn 7 (154), Blwyddyn 8 (153), Blwyddyn 9 (150), Blwyddyn 10 (146), Blwyddyn 11 (149).

## Ffig. 21 Cyfrifoldeb am gydlynu ACRh





**C34 Pwy sy'n gyfrifol am gydlynu addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn yr ysgol?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (173).

## Ffig. 22 Grwpiau sy'n cyfrannu at addysgu ACRh




**C35 Pwy sy'n cyfrannu at addysgu addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh)?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (174).


**Ffig. 23 Camau a gymerwyd gan ysgolion i baratoi i gyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd**




**C37 Beth mae eich ysgol yn ei wneud i baratoi i gyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (155).


**Ffig. 24 Ymwneud gan grwpiau i baratoi i gyflwyno Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles**




**C37A I ba raddau y mae'r grwpiau canlynol wedi ymwneud â pharatoadau i gyflwyno Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn eich ysgol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n cymryd camau i baratoi i gyflwyno addysgu iechyd a lles o fewn y cwricwlwm newydd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Yr uwch dîm rheoli (147), Staff addysgu eraill (147), Staff bugeiliol a staff cymorth (146), Myfyrwyr (145), Teuluoedd (140), Y gymuned ehangach (139).

**Ffig. 25 Y graddau y mae staff yn teimlo'n barod i gyflwyno'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad**




**C38 Nodwch i ba raddau y mae staff eich ysgol yn teimlo'n barod i gyflwyno pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad (1 – ddim yn barod o gwbl, 5– yn gwbl barod).**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Y Celfyddydau Mynegiannol (153), Iechyd a Lles (158), Y Dyniaethau (152), Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (152), Mathemateg a Rhifedd (152), Gwyddoniaeth a Thechnoleg (153).

## 2.4 Gweithgarwch corfforol a chludiant llesol


*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Mae bron i hanner holl fyfyrwyr Blwyddyn 7 (49%) **yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol strwythuredig allgyrsiol** 3-4 diwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr haf (gweler Ffigur 26). Gall cyfran lai gymryd rhan 3-4 diwrnod yr wythnos yn nhymor yr hydref (43%). Gall myfyrwyr Blwyddyn 10 gymryd rhan 3-4 diwrnod yr wythnos mewn llai o ysgolion: 43% yn nhymor yr haf a 35% yn nhymor yr hydref.
- Nid yw'n syndod bod pob ysgol yn defnyddio athrawon Addysg Gorfforol i gyflwyno chwaraeon neu weithgarwch corfforol allgyrsiol. Cyfran yr ysgolion **a oedd yn defnyddio Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru i gyflwyno chwaraeon neu weithgarwch corfforol allgyrsiol** oedd 32%. Athrawon eraill neu staff eraill yr ysgol oedd y grŵp a ddefnyddiwyd amlaf gan ysgolion i gyflwyno chwaraeon allgyrsiol (76%), ar ôl athrawon Addysg Gorfforol (gweler Ffigur 27).
- Roedd campfa / neuadd chwaraeon, cae chwarae neu gwrt pêl-fasged/pêl-rwyd **ar gael i fyfyrwyr naill ai amser cinio a/neu ar ôl ysgol** mewn oddeutu saith i wyth o bob deg ysgol (60-80%). Mewn mwy na hanner yr ysgolion, roedd offer chwaraeon ar gael i fyfyrwyr yn ystod amser cinio (53%) ac ar ôl ysgol (60%) (gweler Ffigur 28).
- Roedd saith o bob deg ysgol (68%) yn aelodau o **gynllun Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru**, ac roedd gan chwarter yr ysgolion (24%) 5 llysgennad neu fwy (gweler Ffigur 29).
- Roedd pedair o bob pum ysgol (81%) yn **monitro ffitrwydd corfforol myfyrwyr**. Roedd dros hanner yr ysgolion yn argymell gweithgareddau ar ôl ysgol neu weithgareddau cymunedol eraill (51%) ac roedd pedair o bob deg ysgol (45%) yn ymgynghori â myfyrwyr pan roeddent yn amlygu lefelau isel o ffitrwydd (gweler Ffigur 30).
- Nid oedd dwy o bob tair ysgol (67%) yn **monitro pwysau corff myfyrwyr**. Roedd un o bob pum ysgol (19%) yn cyfeirio'r myfyriwr at nyrs yr ysgol pan roeddent yn amlygu pryderon (gweler Ffigur 31), a byddai 17% ohonynt yn trafod y mater yn uniongyrchol gyda rhieni.
- Y **dull** a ddefnyddiwyd amlaf **i hyrwyddo cludiant llesol** oedd darparu man storio diogel, dan orchudd, i feiciau a sgwteri (63% o ysgolion), gydag oddeutu pedair o bob deg ysgol yn hyrwyddo llwybrau cerdded a seiclo diogel (42%) ac yn cydweithio â'r heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i fynd i'r afael â diogelwch cymunedol neu ddiogelwch cludiant (42%). Dim ond 10% o ysgolion a oedd yn cynnig hyfforddiant hyfedredd seiclo (gweler Ffigur 32).

| Cwestiwn (heb siart) | Bôn (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb) |
|---|---|


| | |
|---|---|
| C49 A yw eich ysgol: (1) Yn monitro nifer y myfyrwyr sy'n cerdded neu'n seiclo i'r ysgol; (2) Yn gosod nodau er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cerdded neu'n seiclo i'r ysgol | Pob ysgol a ymatebodd: Monitro myfyrwyr (162); Gosod nodau (161), Dysgu tu allan (164) |

**Ffig. 26 Nifer diwrnodau'r wythnos y gall myfyrwyr Blynyddoedd 7 a 10 gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol strwythuredig allgyrsiol**





**C42 Ar gyfartaledd, sawl diwrnod yr wythnos y gall myfyrwyr ym mlynyddoedd 7 a 10 gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol strwythuredig arall allgyrsiol (dan arweiniad staff, gwirfoddolwyr, myfyrwyr eraill) yn nhymhorau'r hydref a'r haf e.e. clwb pêl-droed, clwb dawns?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (174).

**Ffig. 27 Grwpiau sy'n cyflwyno chwaraeon allgyrsiol mewn ysgolion**





**C43 Pwy sy'n cyflwyno chwaraeon a gweithgarwch corfforol allgyrsiol yn eich ysgol?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n cyflwyno chwaraeon a gweithgarwch corfforol allgyrsiol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (174).

**Ffig. 28 Mynediad myfyrwyr at adnoddau gweithgarwch corfforol y tu hwnt i amser gwersi**





**C44 A yw'r canlynol ar gael i fyfyrwyr ar y safle (gyda goruchwyliaeth neu heb oruchwyliaeth)?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod': Campfa/neuadd chwaraeon (173), Cae chwarae/caeau porfa (173) ac Offer ar gyfer chwaraeon tîm (172), Pwll nofio (173), Stiwdio ffitrwydd / dawns (171), Cyrtiau pêl-fasged/pêl-rwyd (172) a Lle chwarae (173), Trac rhedeg (172), Caeau pêl-droed 5 bob ochr (172) ac Ardal sgrialu (173).

**Ffig. 29 Canran yr ysgolion â Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru**





**C45 Faint o Lysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru sydd gan eich ysgol ar hyn o bryd?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (130).

## Ffig. 30 Camau gan yr ysgol i fynd i’r afael â lefelau isel o ffitrwydd





**C46 A yw eich ysgol yn monitro ffitrwydd corfforol myfyrwyr ar lefel yr ysgol a/neu ar lefel myfyrwyr unigol a pha gamau ydych chi’n eu cymryd pan fyddwch yn nodi lefelau isel o ffitrwydd?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio ‘Ddim yn gwybod’ (166).

## Ffig. 31 Camau gan yr ysgol i fynd i’r afael â phryderon am bwysau’r corff




**C47 A yw eich ysgol yn monitro pwysau corff myfyrwyr ar lefel ysgol a/neu ar lefel myfyrwyr unigol a pha gamau ydych chi’n eu cymryd pan fyddwch yn nodi pryderon?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio ‘Ddim yn gwybod’ (169).

## Ffig. 32 Strategaethau i hyrwyddo teithio llesol




**C48 A yw eich ysgol yn hyrwyddo teithio llesol mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (172).

## 2.5 Bwyta'n iach

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Y strategaeth a ddefnyddiwyd amlaf i hyrwyddo bwyta'n iach oedd defnyddio system heb arian i annog myfyrwyr i gael prydau ysgol am ddim (95% o ysgolion). Roedd defnyddio cymhellion o ran pris opsiynau iachach yn isel (9% o ysgolion). Roedd gan 44% o ysgolion nodau i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim (gweler Ffigur 33).
- Cynigiwyd **rhaglenni allgyrsiol ar ddysgu am fwyd a bwyta'n iach** mewn cyfanswm o 69% o ysgolion, gydag 20% yn gyffredinol yn cael eu cynnig yn rheolaidd a 49% yn ddigwyddiadau achlysurol neu unigol. Nid oedd 49% o ysgolion a gynigiodd raglenni o'r fath byth yn gwahodd rhieni i gymryd rhan (gweler Ffigur 34).
- Roedd **38% o ysgolion yn cynnig clwb brecwast** trwy gydol y flwyddyn i bob myfyriwr. Roedd 28% arall o ysgolion yn cynnig clwb brecwast i rai myfyrwyr a/neu ar adegau penodol o'r flwyddyn. Roedd mwyafrif (89%) yr ysgolion a gynigiodd frecwast yn gwneud hynny'n ddyddiol.
- Roedd **brecwast am ddim i bob myfyriwr** mewn bron i hanner (47%) yr ysgolion â chlybiau, ac roedd traean (34%) ohonynt yn darparu brecwast am ddim i rai myfyrwyr ar sail angen (gweler Ffigur 35).
- Yr agwedd ar **amgylchedd ciniawa'r ysgol** oedd leiaf tebygol o fod yn bresennol mewn ysgolion oedd nifer ddigonol o gadeiriau a byrddau (75%) (gweler Ffigur 36).
- Roedd mwyafrif helaeth yr ysgolion (95%) **yn cael o leiaf 30 munud ar gyfer eu hegwyl ginio**, gyda saith y cant yn gyffredinol yn cael awr neu fwy (gweler Ffigur 37).
- Roedd 9% o ysgolion wedi **cynyddu hyd eu hegwyl ginio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf**, ac roedd 29% o ysgolion wedi'i chwtogi. Roedd 12% arall wedi ystyried ei chwtogi, ond wedi penderfynu peidio â gwneud. O'r ysgolion hynny a oedd wedi cwtogi neu yn ystyried cwtogi hyd eu hegwyl ginio, dywedodd bron i hanner (47%) ohonynt mai gwella ymddygiad myfyrwyr oedd y prif symbyliad.
- Roedd rhwng 12% a 13% o ysgolion yn caniatáu i fyfyrwyr Blynyddoedd 7, 8 a/neu 9 **adael y safle yn ystod amser cinio**, ond gyda chaniatâd rhieni yn unig. Roedd 16% o ysgolion yn caniatáu i fyfyrwyr Blwyddyn 10 adael safle'r ysgol yn ystod amser cinio, ac roedd 20% o ysgolion yn caniatáu hynny ar gyfer Blwyddyn 11. Nid oedd tua 3 o bob 4 ysgol yn caniatáu i'w myfyrwyr adael safle'r ysgol heb ganiatâd rhieni (79% o flwyddyn 11) (gweler Ffigur 38). Ni wnaeth mwyafrif yr ysgolion (74%) **newid eu polisi ar ganiatáu i grwpiau blwyddyn adael safle'r ysgol yn ystod amser cinio** yn ystod blynyddoedd ysgol 2019/20 neu 2020/21. Fodd bynnag, newidiodd 15% ohonynt eu polisi i ganiatáu i lai o grwpiau blwyddyn neu fyfyrwyr adael safle'r ysgol.
- Roedd gan oddeutu hanner yr ysgolion (48%) **bolisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd**. Roedd polisi wrthi'n cael ei ddatblygu mewn chwarter (26%) pellach o ysgolion.

- O'r ysgolion â pholisïau ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd, y digwyddiad lleiaf tebygol o gael ei gynnwys yn y polisi hwn oedd **y mathau o fwydydd a diodydd y gellid eu cynnig yn nigwyddiadau cymdeithasol yr ysgol i rieni** (35%) (gweler Ffigur 39).

- Ymhlith ysgolion oedd â pholisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd, roedd dros hanner ohonynt (65%) â pholisi yn cynnwys arweiniad ar **y mathau o fwydydd a diodydd y gall myfyrwyr ddod â nhw i'r ysgol**, ac i 8% ohonynt, roedd y polisi'n cynnwys gofynion ynghylch pethau felly.

- O'r ysgolion a oedd yn cynnwys arweiniad neu ofynion ynghylch y mathau o fwydydd a diodydd y gall myfyrwyr ddod â nhw i'r ysgol yn eu polisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd, roedd bron i hanner ohonynt (55%) hefyd **yn cynnwys pa fwydydd y gellid mynd â nhw ar deithiau ysgol yn eu harweiniad neu eu gofynion**.


- Nid oedd y rhan fwyaf o ysgolion (79%) yn **monitro'r bwydydd y mae myfyrwyr yn dod â nhw i'r ysgol**, tra'r oedd chwech y cant ohonynt yn ei fonitro o leiaf unwaith y tymor a 14% ohonynt yn ei fonitro llai nag unwaith y tymor.

- Roedd **deunyddiau wedi'u noddi'n fasnachol** gan archfarchnadoedd a sefydliadau masnach yn cael eu defnyddio gan 16% ac 15% o ysgolion yn y drefn honno ar gyfer addysgu, ac roedd 14% o ysgolion yn defnyddio deunyddiau gan archfarchnadoedd ar gyfer digwyddiadau codi arian (gweler Ffigur 40).

- **Nid oedd** mwy na dwy o bob tair ysgol (67%) yn **ymwneud ag archfarchnadoedd, cwmnïau bwyd brys, cwmnïau diodydd meddal, cwmnïau diodydd egni, cwmnïau melysion na sefydliadau masnach** (gweler Ffigur 41).


| **Cwestiwn (heb siart)** | **Bôn (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)** |
|---|---|
| C51 A yw eich ysgol neu unrhyw sefydliad arall yn darparu unrhyw raglenni allgyrsiol ar gyfer dysgu am fwyd a bwyta'n iach, e.e. clybiau coginio? | Pob ysgol a ymatebodd (173) |
| C53 A yw eich ysgol yn cynnig clwb brecwast cyn cychwyn sesiwn fore'r ysgol? | Pob ysgol a ymatebodd (173) |
| C54 Sawl diwrnod yr wythnos y mae'r clwb brecwast yn cael ei gynnig? | Pob ysgol sy'n cynnig clwb brecwast (113) |
| C58 Ydych chi wedi ystyried newid hyd eich egwyl ginio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf? | Pob ysgol a ymatebodd (174) |
| C59 Beth oedd y prif ysgogiad dros gwtogi, neu ystyried cwtogi, hyd eich egwyl ginio? | Pob ysgol a wnaeth gwtogi, neu ystyried cwtogi, hyd eu hegwyl ginio (71) |
| C61 A newidiodd eich polisi ar ganiatáu i grwpiau blwyddyn adael tir yr ysgol yn ystod eu hegwyl ginio yn ystod blynyddoedd ysgol 2019-20 neu 2020/21? | Pob ysgol a ymatebodd (174) |
| C62 A oes gan eich ysgol bolisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd? | Pob ysgol a ymatebodd (166) |
| Q64 A yw polisi eich ysgol ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd yn cynnwys arweiniad neu ofynion ynghylch y mathau o fwydydd a diodydd y gall myfyrwyr ddod â nhw i'r ysgol, e.e. mewn bocsys bwyd? | Pob ysgol sydd â pholisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd (77) |
| C65 A yw hyn yn cynnwys bwyd ar gyfer tripiau ysgol? | Pob ysgol y mae eu polisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd yn cynnwys arweiniad/gofynion ynghylch y mathau o fwydydd/diodydd y gall myfyrwyr ddod â nhw i'r ysgol (53) |
| C66 A yw'r bwyd a ddaw'ch myfyrwyr ag ef i'r ysgol yn cael ei fonitro o gwbl? | Pob ysgol a ymatebodd (170) |

### Ffig. 33 Strategaethau i hyrwyddo bwyta'n iach





**C50 A yw eich ysgol yn gwneud unrhyw rai o'r canlynol i hyrwyddo bwyta'n iach?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'ddim yn berthnasol' (172).

### Ffig. 34 Gwahoddiadau i rieni gymryd rhan mewn rhaglenni allgyrsiol ar fwyta'n iach





**C52 A yw rhieni'n cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y rhaglenni hyn?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sydd â rhaglenni allgyrsiol ar dysgu amfwyd a bwyta'n iach, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (112).

**Ffig. 35 Codi tâl ar fyfyrwyr am glybiau brecwast**





**C55 A yw myfyrwyr yn talu am eu brecwast yn y clwb?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n cynnig clwb brecwast, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (106).

**Ffig. 36 Amgylchedd ciniawa'r ysgol**





**C56 Ticiwch Oes neu Nac oes i'r cwestiynau canlynol am amgylchedd ciniawa eich ysgol?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Digon o seddi yn yr ystafell fwyta (169), O leiaf 20 munud i fwyta ar ôl eistedd (172), Lle i fyfyrwyr â chinio parod eistedd (170), Dŵr yfed am ddim (174), Ystafell fwyta dan oruchwyliaeth (174).

### Ffig. 37 Hyd yr egwyl ginio





**C57 Faint o amser y mae myfyrwyr yn ei gael ar gyfer eu hegwyl ginio yn eich ysgol?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (174).

### Ffig. 38 Caniatâd i adael yr ysgol yn ôl grŵp blwyddyn mewn ysgolion sy'n caniatáu i unrhyw grŵp blwyddyn adael y safle




**C60 A ganiateir i fyfyrwyr blynyddoedd 7 i 11 adael safle'r ysgol yn ystod eu hegwyl ginio?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n caniatáu i o leiaf un grŵp blwyddyn adael y safle, ac eithrio 'Ddim yn gwybod': Blwyddyn 7 (174), Blwyddyn 8 (174), Blwyddyn 9 (174), Blwyddyn 10 (174), Blwyddyn 11 (173).


**Ffig. 39 Cynnwys mewn polisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd y mathau o fwydydd a diodydd y gellir eu cynnig neu eu gwerthu mewn gwahanol gyd-destunau**




**C63 A yw polisi eich ysgol ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd yn cynnwys y mathau o fwydydd a diodydd y gellir eu cynnig neu eu gwerth yn y canlynol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sydd â pholisi ar fwyta'n iach neu ar Fwyd a Ffitrwydd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Prosiectau menter myfyrwyr (71), Digwyddiadau cymdeithasol yr ysgol i rieni (69), Digwyddiadau cymdeithasol yr ysgol i fyfyrwyr (70), Codi arian gan yr ysgol neu'r myfyrwyr (71).


**Ffig. 40 Defnyddio deunyddiau wedi'u noddi'n fasnachol**




**C67 A yw eich ysgol yn defnyddio deunyddiau wedi'u noddi'nfasnachol gan y sefydliadau canlynol ar gyfer addysgu neu weithgareddau eraill yn yr ysgol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Archfarchnadoedd (159), Cwmnïau bwyd brys (163), Cwmnïau diodydd meddal (163), Cwmnïau diodydd ynni (164), Cwmnïau melysion(161), Sefydliadau masnach (150)

**Ffig. 41 Busnesau y mae ysgolion yn gwahodd cynrychiolwyr ohonynt neu'n mynd â myfyrwyr i ymweld â nhw**




**C68 A yw eich ysgol yn gwahodd cynrychiolwyr o blith unrhyw rai o'r canlynol i'r ysgol neu'n mynd â myfyrwyr i ymweld â nhw?**
Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sy'n ymwneud ag o leiaf un sefydliad, aceithrio 'Ddim yn gwybod' (168).


## 2.6 Tybaco, cyffuriau ac alcohol

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Roedd 3 o bob 4 ysgol (77%) yn **addysgu myfyrwyr am dybaco anghyfreithlon**. Roedd 9 o bob 10 ysgol (90%) hefyd yn addysgu'u myfyrwyr am e-sigaréts/dyfeisiau anweddu.
- Cynigiwyd **cymorth i roi'r gorau i dybaco** i fyfyrwyr mewn tri chwarter (73%) o ysgolion. Roedd dros hanner yr ysgolion (61%) yn cynnig cymorth o'r fath trwy atgyfeirio i wasanaeth neu fenter oddi ar y safle, gyda bron i chwarter (24%) yn cynnig cymorth yn yr ysgol. Nid oedd ychydig dros chwarter o ysgolion (27%) yn cynnig unrhyw wasanaethau cymorth i roi'r gorau i dybaco.
- Roedd gan bron pob ysgol **lwybrau neu brosesau atgyfeirio penodol yn eu lle i gynnig arbenigedd ac adnoddau i fyfyrwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau** (96%) **ac alcohol** (95%).
- Roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion (94%) **bolisi a oedd yn cynnwys gwahardd ysmygu a defnyddio tybaco**, yn gwahardd defnyddio tybaco ar dir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol, ac roedd gwahardd hynny yn nigwyddiadau'r ysgol oddi ar dir yr ysgol ychydig yn llai cyffredin (92%) (gweler Ffigur 42).
- Roedd gan bron i dair o bob pedair ysgol (73%) bolisi gwahardd yn cynnwys **sigaréts electronig, h.y. e-sigaréts neu ddyfeisiau anweddu,** ac roedd 17% ohonynt wrthi'n datblygu polisi o'r fath.
- O'r ysgolion hynny â pholisi a oedd yn cynnwys defnyddio e-sigaréts, roedd mwyafrif helaeth ohonynt **yn gwahardd myfyrwyr rhag defnyddio e-sigaréts ar dir yr ysgol yn ystod oriau ysgol** (98%) **a'r tu hwnt i oriau ysgol** (95%). Roedd mwyafrif helaeth o ysgolion â pholisi o'r fath yn gwahardd staff hefyd rhag eu defnyddio yn ystod oriau ysgol (93%) a'r tu allan i oriau ysgol (86%) (gweler Ffigur 43).
- Roedd un o bob pum ysgol (20%) yn **caniatáu alcohol mewn digwyddiadau** lle'r oedd safle'r ysgol yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau allanol ac roedd cyfrannau tebyg yn caniatáu alcohol mewn digwyddiadau ar safle'r ysgol i rieni (19%) ac i staff (18%) (gweler Ffigur 44).

| **Cwestiwn (heb siart)** | **Bôn (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)** |
|---|---|
| C69 A yw eich addysg tybaco yn cynnwys addysgu myfyrwyr am: | Pob ysgol a ymatebodd: Tybaco anghyfreithlon (162); E-sigaréts (166) |
| C70 A yw eich ysgol yn cynnig unrhyw fath o gymorth i roi'r gorau i dybaco i fyfyrwyr? | Pob ysgol a ymatebodd (174) |
| C71 Oes gan eich ysgol lwybr neu broses atgyfeirio benodol ar waith i gynnig arbenigedd ac adnoddau i fyfyrwyr sy'n: | Pob ysgol a ymatebodd: Camddefnyddio cyffuriau (168); Camddefnyddio alcohol (167) |
| C73 A yw eich ysgol yn arddangos arwyddion wrth neu gerllaw prif fynedfa/prif fynedfeydd tir yr ysgol yn datgan bod tir yr ysgol yn ddi-fwg? | Pob ysgol a ymatebodd a nododd fod tir eu hysgol yn ddi-fwg (129) |
| C74 Oes gan eich ysgol bolisi sy'n cynnwys defnyddio sigaréts electronig, sy'n cael eu hadnabod hefyd fel e-sigaréts neu ddyfeisiau anweddu? | Pob ysgol a ymatebodd (169) |


### Ffig. 42 Gwaharddiadau'r polisi ar ddefnyddio tybaco




**C72 A yw polisi eich ysgol ar ysmygu a defnyddio tybaco yn gwahardd defnyddio tybaco yn y lleoliadau canlynol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sydd â pholisi sy'n cynnwys ysmygu a defnyddio tybaco, ac eithrio 'Ddim yn gwybod': Tir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol (172); Digwyddiadau'r ysgol oddi ar dir yr ysgol (164); Cerbydau preifat ar dir yr ysgol (161)


## Ffig. 43 Gwaharddiadau’r polisi ar ddefnyddio e-sigaréts




**C75 A yw polisi eich ysgol yn gwahardd defnyddio e-sigaréts yn y lleoliadau canlynol, gan fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sydd â pholisi sy’n cynnwys defnyddio e-sigaréts, ac eithrio ‘Ddim yn gwybod’. Tir yr ysgol yn ystod oriau ysgol (122), Tir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol (120), Cerbydau preifat ar dir yr ysgol (114), Digwyddiadau’r ysgol oddi ar dir yr ysgol (116).

## Ffig. 44 Gwaharddiadau’r polisi ar yfed alcohol




**C76 A ganiateir alcohol mewn unrhyw rai o’r sefyllfaoedd canlynol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio ‘Ddim yn gwybod’ neu ‘ddim yn berthnasol’: Pan mae safle’r ysgol yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau allanol (145), Digwyddiadau ar safle’r ysgol i rieni (160), Digwyddiadau ar safle’r ysgol i staff (158).

## 2.7 Iechyd meddwl a lles meddyliol

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Roedd gan oddeutu hanner yr ysgolion **bolisïau ysgrifenedig ar iechyd meddwl a lles meddyliol myfyrwyr ac ar hunan-niweidio** (51% a 49% yn y drefn honno), ac roedd gan lai o ysgolion bolisïau ar atal hunanladdiad a/neu ofal ar ôl hunanladdiad (35%) (gweler Ffigur 45).

- Dywedodd dros hanner yr ysgolion (51%) fod eu holl staff wedi **cael hyfforddiant ar adnabod ac ymateb i effaith trawma yn ystod plentyndod**. Mewn un o bob pum ysgol, fodd bynnag, roedd llai na hanner y staff wedi cael yr hyfforddiant hwn (21%).


- Adroddodd bron i bob ysgol (99%) fod **mannau anogaeth pwrpasol ar gyfer myfyrwyr**, ond mewn lleiafrif o ysgolion (18%), roedd y mannau ar gael i rai myfyrwyr yn unig.

- Dywedodd ychydig dros naw o bob deg ysgol (99%) fod **gwasanaeth cwnsela ar gael i'w staff** (gweler Ffigur 46).

- Roedd dwy o bob tair ysgol (68%) yn cyflwyno **ymyriadau lles i staff**.

| **Cwestiwn (heb siart)** | **Bôn (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)** |
|---|---|
| C78 Faint o staff sydd wedi cael hyfforddiant ar adnabod ac ymateb i effaith trawma yn ystod plentyndod e.e. cam-drin, rhieni'n camddefnyddio sylweddau, rhieni yn y carchar? | Pob ysgol a ymatebodd (168) |
| C79 A oes gan eich ysgol fan anogaeth pwrpasol ar gyfer myfyrwyr? | Pob ysgol a ymatebodd (173) |
| C81 A yw eich ysgol yn cyflwyno unrhyw ymyriadau iechyd meddwl a lles i staff? | Pob ysgol a ymatebodd (158) |


**Ffig. 45 Polisïau ysgrifenedig ar iechyd meddwl a lles meddyliol**




**C77 A oes gan eich ysgol bolisïau ysgrifenedig sy'n cynnwys y canlynol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Iechyd meddwl a lles meddyliol myfyrwyr (169), Hunan-niweidio (166), Atal hunanladdiad a/neu ofal ar ôl hunanladdiad (160).

**Ffig. 46 Mynediad staff at wasanaethau cwnsela**




**C80 A yw'r ysgol yn cynorthwyo staff i gael at gymorth iechyd meddwl a lles emosiynol arbenigol (h.y. gwasanaeth cwnsela)? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb (170).


## 2.8 Rhyw a chydberthynas

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion (64%) **wasanaeth 'galw heibio' ar y safle, yn benodol i roi cyngor ar gyfer iechyd rhywiol**. O'r ysgolion a gynigiodd y gwasanaeth 'galw heibio' hwn, roedd y mwyafrif ohonynt (82%) yn defnyddio nyrs ysgol y GIG i'w ddarparu.
- Roedd dros ddwy o bob pump ysgol (45%) **yn darparu condomau rhad ac am ddim ar y safle i fyfyrwyr**.
- Roedd bron i draean o ysgolion â **pholisi ysgrifenedig a oedd yn cynnwys trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer staff a myfyrwyr (VAWDASV)** (28% a 31% yn y drefn honno) ac roedd ychydig yn fwy o ysgolion wrthi'n **datblygu polisi ysgrifenedig a oedd yn cynnwys trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer staff a myfyrwyr (VAWDASV)** (29% a 35% yn y drefn honno) (gweler Ffigur 47).
- Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion (62%) eu bod yn **gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**. Roedd camau cyffredin eraill a gymerodd ysgolion i fynd i'r afael â'r mater yn cynnwys addysg i staff a myfyrwyr ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (63% a 51% yn y drefn honno) (gweler Ffigur 48).
- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd rhai aelodau staff, neu'r cyfan ohonynt, yn cael **hyfforddiant ar ddatgeliadau gan fyfyrwyr (93%) a/neu adnabod ac ymateb i arwyddion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)** (86% ac 88% yn y drefn honno) (gweler Ffigur 49).

| **Cwestiwn (heb siart)** | **Bôn (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)** |
|---|---|
| C82 A oes gan eich ysgol wasanaeth 'galw heibio' ar safle'r ysgol yn benodol i roi cyngor ar y canlynol? | Pob ysgol a ymatebodd (170) |
| C83 Pwy sy'n darparu'r gwasanaeth 'galw heibio' ar safle'r ysgol ar gyfer cyngor ar iechyd rhywiol? | Pob ysgol a ymatebodd (170) |
| C84 A yw eich ysgol yn darparu condomau rhad ac am ddim ar y safle i fyfyrwyr yr ysgol (gan gynnwys dosbarthu yn unol â chynllun Cerdyn-C)? | Pob ysgol a ymatebodd (164) |


### Ffig. 47 Ysgolion â pholisïau ysgrifenedig sy'n cynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)




**C85 A oes gan eich ysgol bolisi ysgrifenedig sy'n cynnwys trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Polisi ar gyfer staff (154), Polisi ar gyfer myfyrwyr (159).


### Ffig. 48 Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)yn 2017/18 ac yn 2018/19




**C86 A yw eich ysgol wedi defnyddio unrhyw rai o'r canlynol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf (2017/8 a 2018/19)?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (162).

### Ffig. 49 Hyfforddiant staff ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn 2019/20 a 2020/21




**C87 A wnaeth staff yn eich ysgol gael unrhyw hyfforddiant ar y materion canlynol yn y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf (2019/20 a 2020/21)?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod.' Sut i ymateb i ddatgeliad gan fyfyriwr (165), Sut i ymateb i arwyddion o VAWDASV (163), Adnabod arwyddion o VAWDASV (168).

## 2.9 Darpariaeth gwasanaeth iechyd


*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion fod ganddynt **nyrs y GIG yn unig** (77%), roedd naw y cant **yn unig** o ysgolion yn cyflogi'u nyrs eu hunain a dywedodd un ar ddeg y cant o ysgolion nad oedd ganddynt nyrs (gweler Ffigur 50).
- Mewn ysgolion â darpariaeth nyrsio, yn fwyaf cyffredin, **roedd nyrs ar y safle** 1-2 waith yr wythnos (48% o ysgolion). Deg y cant yn unig o ysgolion oedd â nyrs ar y safle ac ar gael i fyfyrwyr bob dydd (gweler Ffigur 51).
- Y dasg a wnaed yn fwyaf cyffredin gan nyrsys ysgol y GIG mewn ysgolion â darpariaeth nyrsio'r GIG oedd rhoi **cyngor a chymorth unigol i fyfyrwyr** yn achlysurol (82%) (gweler Ffigur 52).
- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion (94%) yn cynnig **gwasanaeth cwnsela i fyfyrwyr yn yr ysgol** o leiaf unwaith yr wythnos (gweler Ffigur 53).
- Ym mwyafrif yr ysgolion (98%), **roedd myfyrwyr yn cael gwybod am wasanaethau cwnsela cyfrinachol, lleol eraill y gallent eu defnyddio**. Yn yr ysgolion hyn, roedd naw o bob deg ohonynt (91%) wedi trefnu bod myfyrwyr yn gallu troi at y gwasanaethau hyn yn ystod oriau ysgol.
- Roedd gan fwy na dwy o bob tair ysgol (69%) **unigolyn a enwir yn eu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) lleol y gallent gysylltu ag ef/hi i gael help a chymorth**. Nid oedd unigolyn a enwir gan ychydig yn llai na thraean o ysgolion (31%).
- Roedd bron i hanner yr ysgolion (44%) **mewn cysylltiad â'u CAMHS lleol** yn wythnosol, 17% ohonynt bob pythefnos ac 20% ohonynt yn fisol (gweler Ffigur 54).
- Roedd mwyafrif yr ysgolion (88%) a oedd **mewn cysylltiad â'u CAMHS lleol** yn cael cyngor dros y ffôn. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda CAMHS mewn bron i hanner o ysgolion (46%) (gweler Ffigur 55).
- O'r ysgolion a oedd yn gallu **atgyfeirio i CAMHS**, roedd bron i draean o ysgolion wedi gwneud 11 atgyfeiriad neu fwy yn y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf (gweler Ffigur 56).
- Roedd pob ysgol a oedd wedi atgyfeirio i CAMHS wedi galluogi o leiaf rai o'u **myfyrwyr i gael at driniaeth**, ond un o bob deg yn unig (10%) ddywedodd fod yr holl fyfyrwyr a atgyfeiriont wedi cael at driniaeth.
- Dywedodd ychydig dros chwarter o ysgolion (26%) eu bod yn teimlo'u bod yn **cael eu cefnogi gan eu CAMHS lleol**, ond dywedodd bron i bedair o bob deg ysgol (39%) nad oeddent yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi (gweler Ffigur 57).

- Ar y cyfan, roedd **seicolegydd addysg ar gael yn yr ysgol** mewn oddeutu wyth o bob deg ysgol (83%), ond roedd y seicolegydd ar gael unwaith yr wythnos ar y mwyaf ac ar gais yn unig mewn 69% o ysgolion (gweler Ffigur 58).

| **Cwestiwn (heb siart)** | **Bôn (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb)** |
|---|---|
| C92 A yw'r myfyrwyr yn cael gwybod am wasanaethau cwnsela cyfrinachol, lleol eraill y gallant eu defnyddio? | Pob ysgol a ymatebodd (169) |
| C93 A yw myfyrwyr yn gallu troi at wasanaethau o'r fath yn ystod oriau ysgol? | Pob ysgol lle y caiff myfyrwyr wybod am wasanaethau cwnsela cyfrinachol, lleol eraill y gallant eu defnyddio (164) |
| C94 A oes unigolyn a enwir yn eich Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) lleol y gallwch gysylltu ag ef/hi i gael help a chymorth? | Pob ysgol a ymatebodd (167) |
| C98 Pan wnaethoch atgyfeirio, a wnaeth y myfyriwr/myfyrwyr a atgyfeirioch gael at driniaeth? | Pob ysgol a wnaeth o leiaf un atgyfeiriad i'w CAMHS lleol yn ystod y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf (91) |


**Ffig. 50 Math o nyrs ysgol**




**C88 A oes gan eich ysgol Nyrs Ysgol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (173).

### Ffig. 51 Argaeledd nyrs ysgol i fyfyrwyr ar y safle




**C89 Pa mor aml y mae gwasanaeth nyrs ar y safle ac ar gael i fyfyrwyr?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sydd â nyrs ysgol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (151).


### Ffig. 52 Tasgau a wneir gan nyrsys ysgol y GIG




**C90 Pa rai o'r canlynol y mae nyrs ysgol y GIG yn eu gwneud yn eich ysgol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sydd â nyrs ysgol y GIG, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (137).


### Ffig. 53 Argaeledd gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol




**C91 Pa mor aml y mae gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol ar gael i fyfyrwyr?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'(172).


### Ffig. 54 Amlder y cyfathrebu rhwng yr ysgol â'r CAMHS lleol




**C95 Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, tua pha mor aml y mae eich ysgol wedi cyfathrebu â'ch CAMHS lleol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (164).


**Ffig. 55 Cyfathrebu â CAMHS**




**C96 Sut cyflawnwyd y cyfathrebu?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd sydd wedi cyfathrebu â'u CAMHS lleol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (155).


**Ffig. 56 Atgyfeiriadau i CAMHS yn y ddwy flynedd ddiwethaf**




**C97 Faint o gyfeiriadau wnaethoch chi at eich CAMHS lleol am asesiad yn y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf (2019/20 a 2020/21) ar gyfer myfyrwyr unigol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. 2019/20 (140), 2020/21 (144).


### Ffig. 57 Y graddau y mae ysgolion yn teimlo bod CAMHS yn eu cefnogi




**C99 I ba raddau ydych chi'n teimlo'ch bod chi'n cael eich cefnogi gan eich CAMHS lleol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (163).

### Ffig. 58 Argaeledd seicolegydd addysg yn yr ysgol




**C100 A oes seicolegydd addysg ar gael i fyfyrwyr yn yr ysgol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (169).


## 2.10 Atodiad 2020: COVID-19

*Crynodeb o ganfyddiadau*

- Pan ofynnwyd i ysgolion nodi, o 1-5, faint o effaith y bu ar fyfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21 o sawl safbwynt (1 – dim effaith arnynt, 5 – effaith fawr arnynt), nododd y rhan fwyaf o ysgolion 4 neu 5 ar gyfer sawl mesur, a'r effeithiau mwyaf cyffredin oedd **gostyngiad mewn lles meddyliol** (4.29), **gostyngiad mewn ymgysylltiad â'r ysgol** (4.21), mwy o drafferth â gwaith cartref (4.1) a llai o gyfle am weithgarwch corfforol (4.09) (gweler Ffigur 59).
- Er mwyn addasu i gyfyngiadau'r pandemig, roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi gallu rhoi'r canlynol ar waith: **gwersi ar-lein byw, aseiniadau darllen ac ysgrifennu o bell, a gwersi wedi'u recordio ymlaen llaw** (gweler Ffigur 60).
- Wrth symud i ddysgu gartref, roedd mwyafrif yr ysgolion yn gallu neilltuo adnoddau digonol i **staff a myfyrwyr heb gyfarpar TG addas i raddau helaeth.** Ar gyfartaledd, roedd llai o allu gan ysgolion i ddarparu adnoddau digonol i rieni/gofalwyr ar gyfer darparu dysgu gartref o gymharu â staff a myfyrwyr (gweler Ffigur 61).
- Pan ofynnwyd am effeithiau mesurau cadw pellter cymdeithasol, nododd y mwyafrif o ysgolion fod **clybiau ar ôl ysgol a chwaraeon allgyrsiol wedi'u heffeithio i raddau sylweddol** (gweler Ffigur 62).
- I fynd i'r afael â'r tarfu a achoswyd gan y pandemig, fe wnaeth 72% o ysgolion **gyflogi adnoddau ychwanegol** i addysgu grwpiau llai (fel tiwtoriaid, cynorthwywyr addysgu neu athrawon) ac roedd dros hanner (55%) ohonynt wedi **neilltuo aseiniadau ychwanegol** (gweler Ffigur 63).
- I ymateb i'r pandemig, yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-21 a 2021-22, roedd bron i bob ysgol wedi **gorchymyn defnyddio gorchuddion wyneb i staff a disgyblion**, **rhannu disgyblion yn ôl parthau gwahanol**, a **chynnig gwasanaethau lles ychwanegol** (gweler Ffigur 64 a 65).
- Pan ofynnwyd i ysgolion restru'r pedwar rhwystr mwyaf rhag dilyniant dysgu o ganlyniad i'r pandemig, **heriau o ran iechyd meddwl disgyblion** (80%), **diffyg ymgysylltiad gan ddisgyblion** (77%), **cau'r ysgol a lefelau presenoldeb disgyblion** (61%) ac **absenoldeb staff** (46%) a nodwyd yn fwyaf cyffredin ganddynt (gweler Ffigur 66).
- Mae'r mwyafrif helaeth o ysgolion (96%) wedi **gwneud newidiadau o ganlyniad i bandemig COVID-19 sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion a/neu staff, gyda'r rhain yn cael eu cynnal yn y dyfodol** (gweler Ffigur 67).

| Cwestiwn (heb siart) | Bôn (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymateb) |
|---|---|
| C108 Yn ystod y cyfnod pan gaewyd ysgolion, os oedd eich ysgol ar agor i blant gweithwyr hanfodol a/neu blant agored i newid, rhowch ychydig fanylion byr am y trefniadau a oedd ar waith. | Pob ysgol a ymatebodd (169) |
| C109 Yn eich ysgol, beth yw'r prif heriau sy'n wynebu dysgwyr nawr o ganlyniad i bandemig COVID-19? | Pob ysgol a ymatebodd (171) |


**Ffig. 59 Effeithiau'r pandemig ar fyfyrwyr**




**C101 Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, i ba raddau ydych chi'n gwybod bod myfyrwyr yn eich ysgol wedi cael eu heffeithio yn y ffyrdd canlynol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Gostyngiad mewn lles meddyliol (173), Gostyngiad mewn ymgysylltiad â'r ysgol (174), Mwy o unigrwydd (172), Mwy o darfu ar gwsg (157), Llai o gyfle am chwaraeon (173), Mwy o bryderon ariannol (163), Mwy o dlodi bwyd (162), Mwy o drafferth â gwaith ysgol (174).


**Ffig. 60 Y gallu i gynnig gweithgareddau dysgu o bell/cyfunol**




**C102 Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, i ba raddau'r oeddech yn gallu cynnig y mathau canlynol o weithgareddau dysgu o bell/cyfunol yn lle addysgu pan roedd angen trosglwyddo i ddysgu gartref?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod': Ysgrifennu/darllen (173), Gwersi ar-lein byw (174), Gwersi ar-lein wedi'u recordio ymlaen llaw (174), Gwersi ymarferol (174), Aseiniadau unigol/sesiynau grŵp bach (174).


**Ffig. 61 Neilltuo adnoddau ar gyfer dysgu gartref**




**C103 Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, i ba raddau roedd eich ysgol yn gallu neilltuo adnoddau digonol i gefnogi'r grwpiau canlynol pan roedd angen trosglwyddo i ddysgu gartref?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod': Rhieni/Gofalwyr (173), Disgyblion heb TG addas (173), Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (173), Staff heb TG addas (174).


**Ffig. 62 Effaith mesurau cadw pellter cymdeithasol ar ddarpariaeth clybiau**




**C104 Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, yn y cyfnodau pan na orfodwyd ysgolion i gau, i ba raddau y gwnaeth mesurau cadw pellter COVID-19 effeithio ar y darpariaethau canlynol yn eich ysgol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu lle na roddwyd ymatebion: Clwb brecwast: (157), Clybiau ar ôl ysgol (173), Chwaraeon allgyrsiol (173).


**Ffig. 63 Mynd i'r afael ag effaith y tarfu ar ddysgu a achosodd pandemig COVID-19**




**C105 Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, a wnaeth eich ysgol gymryd unrhyw rai o'r camau canlynol i fynd i'r afael ag effaith tarfu ar ddysgu oherwydd pandemig COVID-19?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (173).


## Ffig. 64 Newidiadau yn ymarfer yr ysgol i ymateb i'r pandemig (blwyddyn ysgol 2020/21)




**C106 Pa newidiadau a wnaed i ymarfer yr ysgol i ymateb i bandemig COVID-19 (Blwyddyn Ysgol 2020/2021)?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Byrhau'r diwrnod ysgol (173), Ymestyn y diwrnod ysgol (172), Presenoldeb ar ddiwrnodau gwahanol (171), Egwyliau yn eu tro (174), Amser dechrau gwahanol (173), Gwahanu disgyblion (174), Gorchuddion wyneb (174)


## Ffig. 65 Newidiadau yn ymarfer yr ysgol i ymateb i'r pandemig (blwyddyn ysgol 2021/22)




**C106 Parhad: Pa newidiadau a wnaed i ymarfer yr ysgol i ymateb i bandemig COVID-19 (Blwyddyn Ysgol 2021/2022)?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod'. Mesurau diogelwch (174), Hyd gwersi (171), Prydau i deuluoedd presennol (172), Prydau i deuluoedd newydd (164), Gwasanaethau lles (173) lechyd meddwl (170).


**Ffig. 66 Rhwystrau rhag dysgu oherwydd y pandemig**




**C107 Ar y cyfan, beth yn eich barn chi oedd y prif rwystrau rhag dilyniant dysgu disgyblion yn eich ysgol o ganlyniad i bandemig COVID-19?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd (174).

**Ffig. 67 Effeithiau cadarnhaol newidiadau a wnaed yn ystod y pandemig**




**C110 Yn eich ysgol, a oes unrhyw newidiadau a wnaethoch o ganlyniad ibandemig COVID-19 sydd wedi cael effeithiau cadarnhaol ar ddisgyblion a/neu staff, yr ydych yn bwriadu eucynnal yn y dyfodol?**

Bôn: Pob ysgol a ymatebodd, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (168).